Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru

Canllaw i Awdurdodau Lleol Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

1. Diben y ddogfen……

2. Trosolwg o Gynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru…….

3. Cymhwystra am daliadau…….....……..……

4. Y Broses Gwneud Cais……....……...…….

5. Gofynion Dilysu…….....…….

6. Penderfyniadau, Taliadau ac Apeliadau……....……

1. Diben y ddogfen

Mae'r canllaw yn darparu'r wybodaeth berthnasol i Awdurdodau Lleol Cymru i gyflwyno Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru ar ei rhan.

2. Trosolwg o Gynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru

Gall aelwydydd cymwys hawlio taliad untro o £200 gan eu hawdurdod lleol er mwyn helpu i dalu eu costau tanwydd. Mae hwn yn daliad ar ben ad-daliad y Bil Ynni a gynigir gan Lywodraeth y DU a'r Taliad Tanwydd Gaeaf a delir fel arfer i bensiynwyr. Bydd y taliad ar gael i bob **aelwyd gymwys** (un taliad yr aelwyd) ni waeth sut maent yn talu am danwydd, boed drwy fesurydd rhagdalu, drwy ddebyd uniongyrchol neu drwy dalu bil bob chwarter, er enghraifft, a gellir ei hawlio ni waeth a ydynt yn defnyddio tanwydd ar y grid ynteu oddi arno.

Mae Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru yn rhan o becyn cymorth tanwydd gwerth £90 miliwn i fynd i'r afael â'r pwysau uniongyrchol ar gostau byw.

Bydd awdurdodau lleol yn cysylltu ag aelwydydd y maent yn credu eu bod yn gymwys i gael y taliad a'u gwahodd i wneud cais i'r cynllun. Gall Awdurdodau Lleol roi taliad uniongyrchol i aelwydydd sy'n rhan o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio manylion banc a gasglwyd fel rhan o'r Taliad Costau Byw. Os bydd rhywun yn credu ei fod yn gymwys i gael y taliad ond nad yw ei Awdurdod Lleol wedi cysylltu ag ef, gall gyflwyno hawliad drwy wefan ei Awdurdod Lleol o 26 Medi 2022 ymlaen.

3. Cymhwysedd am daliadau

Gellir gwneud taliad o dan y cynllun os bydd yr ymgeisydd yn bodloni'r pedwar amod a amlinellir isod.

Amod y Cais

Mae ymgeisydd yn bodloni'r amod hwn os bydd yr awdurdod lleol priodol yn cael y cais i'r cynllun erbyn 5pm ddydd Mawrth 28 Chwefror 2023 neu os penderfynwyd ei fod wedi'i eithrio rhag bod angen bodloni'r amod (gweler adran 4 i gael manylion pellach).

Amod Hawl i Fudd-dal

Bydd y cynllun ar gael i aelwydydd lle mae ymgeisydd, neu ei bartner yn cael un o'r budd-daliadau cymhwyso unrhyw bryd rhwng 1 Medi 2022 a 31 Ionawr 2023:

- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cymorth a Chyflogaeth Seiliedig ar Incwm
- Credyd Cynhwysol
- Gredydau Treth Gwaith
- Gredydau Treth Plant
- Credyd Pensiwn
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Lwfans Byw i Bobl Anabl
- Lwfans Gweini
- Lwfans Gofalwyr[1]
- Lwfans Ceisio Gwaith Newydd/Cyfrannol
- Lwfans Cymorth a Chyflogaeth Newydd/Cyfrannol
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Lwfans Gweini Cyson
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel

Os nad yw deiliad tŷ (neu ei bartner) sy'n atebol am dalu'r costau tanwydd yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau cymwys, dylid pennu/ystyried bod deiliad y tŷ yn gymwys i gael taliad os oes person cymwys yn byw gydag ef.

Mae person yn bodloni'r diffiniad o berson cymwys os yw'n:

- Meddiannu cartref deiliad y tŷ fel ei brif breswylfa; ac
- Yn blentyn dibynnol neu'n oedolyn arall sy'n byw gyda ddeiliad y tŷ (neu ei bartner); ac
- Mae'n cael un o'r budd-daliadau a ganlyn rhwng 1 Medi 2022 a 31 Ionawr 2023:

    - Lwfans Gweini
    - Lwfans Byw i Bobl Anabl
    - Taliad Annibyniaeth Personol
    - Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
    - Lwfans Gweini Cyson
    - Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel

Mae hyn yn adlewyrchiad o'r costau ynni uwch sy'n arferol mewn aelwyd lle mae person anabl yn byw, a dull synnwyr cyffredin sy'n cydnabod bod Lwfans Byw i Bobl Anabl yn cael ei ddyfarnu'n bennaf i blentyn anabl o dan 16 oed (na all fod yn ddeiliad tŷ). Dylid gwneud y taliad i'r deiliad tŷ sy'n atebol am y dreth cyngor neu'r costau tanwydd.

Amod Atebolrwydd am Danwydd

[1] Mae derbyn Lwfans Gofalwyr yn cynnwys y bobl hynny sy'n cael Lwfans Gofalwyr a phobl sydd wedi hawlio Lwfans Gofalwyr ond, oherwydd nad yw rheolau budd-dal sy'n gorgyffwrdd, yn ei dderbyn fel budd-dal arian, h.y. mae ganddynt hawl sylfaenol i Lwfans Gofalwyr.

Mae ymgeisydd yn bodloni'r amod hwn os yw ef (neu ei bartner) yn atebol am dalu'r Dreth Gyngor gan fod ei atebolrwydd am dalu'r Dreth Gyngor yn cael ei ystyried yn gyfystyr ag atebolrwydd am dalu costau tanwydd.

Gall ymgeiswyr nad ydynt yn gyfrifol am dalu'r Dreth Gyngor ddangos eu bod yn bodloni'r amod hwn drwy ddarparu tystiolaeth mai nhw sy'n gyfrifol am dalu'r costau tanwydd ar gyfer eu heiddo. Mae hyn yn wir boed y tanwydd yn cael ei dalu amdano drwy fesurydd rhagdalu, drwy ddebyd uniongyrchol neu drwy fil chwarterol ac ni waeth a geir y tanwydd ar y grid ynteu oddi arno.

Dim ond mewn eiddo yng Nghymru y gall ymgeiswyr hawlio am gostau tanwydd **a** lle ystyrir bod yr eiddo hwn yn brif breswylfa iddynt.

Amod Taliad

Dim ond un taliad o'r cynllun hwn gall ymgeisydd ei gael. Bydd ymgeisydd yn bodloni'r amod hwn os nad yw ef (neu ei bartner) eisoes wedi cael taliad o dan Gynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru yn 2022/2023.

Felly, dylai unrhyw geisiadau dilynol gan y garfan hon gael eu gwrthod ar y sail nad ydynt yn bodloni amod y taliad.

4. Y Broses Gwneud Cais

Dylai aelwydydd sy'n credu y gallent fod yn gymwys i gael taliad o dan y cynllun allu gwneud cais i bob Awdurdod drwy ei system gwneud cais ar-lein ei hun neu, os oes angen, drwy system amgen i'r rhai nad ydynt yn defnyddio systemau digidol, o 9am ar 26 Medi 2022.

Rhaid anfon ceisiadau i'r awdurdod lleol priodol erbyn 5pm ar 28 Chwefror 2023, un mis calendr ar ôl i'r cyfnod cymhwyso ddod i ben ar 31 Ionawr 2023.

Gofynnir i Awdurdodau Lleol, lle'n bosibl, brosesu ymhellach fanylion banc y rhai sy'n rhan o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gasglwyd fel rhan o'r Cynllun Cymorth Costau Byw i weinyddu Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn cyngor am elfen 'prosesu ymhellach' yr ail egwyddor diogelu data. Llywodraeth Cymru yw rheolydd data y ddau gynllun ac mae wedi dod i'r casgliad bod ein trefniadau prosesu ar gyfer y Cynllun Cymorth Tanwydd yn cyd-fynd â'r prosesu o dan ddiben gwreiddiol ein Cynllun Cymorth Costau Byw, o ran ei fod:

- yn rhan o becyn o fesurau sy'n datblygu i leddfu'r argyfwng costau byw i'r rhai ar yr incwm isaf; ac
- wedi'i dargedu at yr un grŵp o bobl at y diben hwnnw (aelwydydd sy'n elwa ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor)

Gall awdurdodau lleol hefyd brosesu data pellach o'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf blaenorol 21/22 neu'r £500 ar gyfer Taliad Gofalwyr Di-dâl sydd hefyd yn cael eu hystyried yn gydnaws â'r Cynllun Cymorth Tanwydd hwn.

Pan na fo hyn yn bosibl, gofynnir i awdurdodau nodi aelwydydd cymwys o ddata eu llwyth achosion presennol (Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor) a'u gwahodd i gael mynediad at gymorth, er nad oes angen i hyn o reidrwydd fod drwy'r un broses ymgeisio â'r unigolion hynny sy'n gwneud cais yn annibynnol i'r cynllun.

Efallai y bydd rhai Awdurdodau yn gallu nodi aelwydydd cymwys o ddata eu llwyth achosion presennol ar gyfer y Budd-dal Tai, ee aelwyd sy'n cael credyd treth gwaith ond y mae ei hincwm yn rhy uchel i fod yn gymwys am ostyngiad yn y dreth gyngor. Gall Awdurdodau ddewis targedu'r aelwydydd hyn ar y cyd ag achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor; ond mae hyn yn ddewisol. Er eglurder, drwy weddill y ddogfen hon, lle y caiff aelwydydd a dargedir eu crybwyll, bydd hyn yn cynnwys aelwydydd sy'n rhan o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a rhai sy'n cael Budd-dal Tai pe byddai Awdurdodau yn penderfynu defnyddio'r opsiwn hwn.

Cyfrifoldeb pob Awdurdod yw penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r broses o wneud cais, ond disgwylir na fydd angen yr un lefel o weithgarwch dilysu ar ôl cyflwyno cais ar geisiadau gan y grŵp o aelwydydd a dargedir o gymharu â'r ceisiadau hynny a gaiff eu gwneud heb wahoddiad gan Awdurdod Lleol.

Mae'r cynllun hwn wedi cael ei gymeradwyo gan yr Adran Gwaith a Phensiynau/Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am ei fod yn gynllun sy'n seiliedig ar wneud cais. Gall y gofyniad am gais gael ei hepgor gan Awdurdodau Lleol pan fo cymhwystra ar gyfer y cynllun wedi ei gadarnhau yn sgil gostyngiadau'r dreth gyngor.

Gofynion hygyrchedd

Bydd angen i Awdurdodau sicrhau bod y ffurflen gais ac unrhyw ddeunyddiau lleol i godi ymwybyddiaeth yn hygyrch, yn darparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn cefnogi cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio cyfleusterau ar-lein.

5. Gofynion Dilysu

Dilysu manylion adnabod

Rhagwelir y bydd yr wybodaeth a ddarperir drwy'r broses gwneud cais a/neu a gofnodir yn nata llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ynghyd â chroeswiriadau yn erbyn cofnodion y Dreth Gyngor a data'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ddigonol i ddilysu manylion adnabod yr ymgeisydd (a/neu ei bartner). Gall awdurdodau benderfynu rhoi prosesau dilysu mwy llym ar waith yn unol â'u hawydd eu hunain i gymryd risgiau a dylid nodi'r rhain yn glir ar y system gwneud cais.

Cadarnhau bod ymgeisydd neu ei bartner yn cael un o'r budd-daliadau cymwys

Pan fo Awdurdodau wedi targedu eu llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor/Budd-dal Tai, bydd hawl i fudd-dal cymwys yn ystod y cyfnod amser priodol eisoes wedi cael ei nodi.

Ar gyfer ceisiadau annibynnol, gall Awdurdodau Lleol ddefnyddio system 'Searchlight' yr Adran Gwaith a Phensiynau i wneud yn siŵr bod yr ymgeisydd, ei bartner neu berson cymwys yn cael un o'r budd-daliadau cymwys. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cadarnhau bod taliadau a wneir o dan Gynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru yn cyfrif fel Darpariaeth Lles Leol[2]

Pan fyddant yn cyrchu data personol gan ddefnyddio Searchlight yn y ffordd hon, mae Awdurdodau yn gyfrifol am gydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR) a chânt eu hatgoffa eu bod wedi derbyn yr holl delerau ac amodau a nodir ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau/Awdurdod Lleol ar Rannu Data, a'u bod yn parhau i fod yn gyfrifol am:

- Safonau sy'n llywodraethu'r gwaith o drosglwyddo, prosesu a storio data yn ddiogel;
- Safonau diogelwch mewn perthynas â chamau gweithredu sy'n ofynnol ar gyfer digwyddiadau diogelwch a chamau disgyblu

Cadarnhau mai'r ymgeisydd neu ei bartner sy'n gyfrifol am dalu'r costau tanwydd

Er mwyn atal Awdurdodau rhag gorfod dilysu'r cyfrifoldeb am gostau tanwydd ar gyfer pob cais, cytunwyd, os mai ymgeisydd (neu ei bartner) sy'n atebol am dalu'r Dreth Gyngor, y gellir derbyn hyn fel tystiolaeth mai ef a/neu ei bartner sy'n gyfrifol am dalu'r costau tanwydd ar gyfer eu haelwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod risg fach iawn y gallai ymgeisydd (neu ei bartner) fod yn atebol am dalu'r Dreth Gyngor ond heb fod yn gyfrifol am dalu'r costau tanwydd. Ni fyddai'r risg hon yn cyfiawnhau cadarnhau cyfrifoldeb cost tanwydd ar gyfer pob cais.

---

[2] Rheoliad 5 o Nawdd Cymdeithasol (rhannu gwybodaeth mewn perthynas â Gwasanaethau Lles etc.) Mae Rheoliadau 2012/1483 a wnaed o dan S131(1) o Ddeddf Diwygio Lles 2012, yn gwneud darpariaeth y gellir darparu gwybodaeth gan y DWP i awdurdodau lleol at ddibenion penderfynu ar gymhwysedd person ar gyfer "darpariaeth lles leol".

Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.
"Local welfare provision" means occasional financial or other assistance given by a local authority, Scottish Ministers or Welsh Ministers, or a person authorised to exercise any function of theirs or providing a service to them, to or in respect of individuals for the purpose of—

(a) meeting, or helping to meet, an immediate short-term need—
  (i) arising out of an exceptional event or exceptional circumstances; and
  (ii) that requires to be met in order to avoid a risk to the well-being of an individual; or
(b) enabling individuals to establish or maintain a settled home, where those individuals have been or, without the assistance, might otherwise be—
  (i) in prison, hospital, a residential care establishment or other institution; or
  (ii) homeless or otherwise living an unsettled way of life

Cydnabyddir hefyd y gallai rhai sefyllfaoedd godi lle nad yw'r unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am dalu'r costau tanwydd ar gyfer yr aelwyd yn atebol am dalu'r Dreth Gyngor. Bydd Awdurdodau angen gofyn am dystiolaeth bellach er mwyn penderfynu a yw ymgeisydd yn gymwys i gael taliad o dan Gynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru.

Gall yr Awdurdod bennu tystiolaeth ddigonol yn yr achosion hyn, fodd bynnag, mae enghreifftiau o ffurfiau derbyniol o dystiolaeth yn cynnwys:

Cwsmer Bilio
Copi digidol o fil neu anfoneb ddiweddar ar gyfer tanwydd oddi ar y grid
Ciplun/ffotograff o fil diweddar
Ciplun o enw cyfrif a chyfeiriad o ddangosfwrdd cyfrif ar-lein / ap
Copi papur o fil diweddar
Cwsmer Rhagdalu
E-bost yn cadarnhau taliad atodol diweddar ar gyfer mesurydd rhagdalu
Ciplun o fesurydd safonol neu ddyfais mesurydd clyfar o eiddo (dylai mesuryddion clyfar ddangos taliadau atodol blaenorol)
Ciplun o enw cyfrif a chyfeiriad o ddangosfwrdd cyfrif ar-lein/ap (cwsmeriaid sydd â mesurydd clyfar yn unig)
Derbynneb Pay Point, neu rywbeth tebyg, o daliad atodol diweddar
Cwsmer oddi ar y grid
Anfoneb ddiweddar ar gyfer prynu tanwydd oddi ar y grid

Cadarnhau nad yw'r ymgeisydd na'i bartner eisoes wedi cael taliad o dan y cynllun

Bwriedir i'r cynllun ddarparu cymorth untro i bob aelwyd gymwys er mwyn helpu i dalu am gostau tanwydd dros y cyfnod sy'n dechrau ym mis Medi 2022. Bydd angen i Awdurdodau sicrhau bod mesurau ar waith ganddynt i atal taliadau dyblyg rhag cael eu gwneud i ymgeiswyr lle maen nhw, neu eu partner, eisoes wedi cael taliad o dan y cynllun naill ai fel person sengl neu fel rhan o'r un cwpl neu gwpl gwahanol. Ni ellir hawlio unrhyw daliadau dyblyg a wneir gan Lywodraeth Cymru a dylid eu talu gan y cwsmer.

6. Penderfyniadau, Taliadau ac Apeliadau

Penderfyniadau

Nid taliad mewn argyfwng na thaliad yn lle incwm yw dyfarniadau a wneir o dan Gynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru ac, am y rheswm hwn, nid oes amserlen benodol ar gyfer penderfynu ar geisiadau. Fodd bynnag, dylai pob Awdurdod Lleol wneud pob ymdrech i wneud penderfyniadau i hwyluso taliadau erbyn diwedd y cyfnod hawlio cyllid.

Taliadau

Anogir Awdurdodau i wneud taliadau amserol i aelwydydd cymwys a dylid gwneud taliadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl i benderfyniad i dalu gael ei wneud.

Dylid gwneud taliadau fel un taliad o £200 i'r manylion cyfrif banc sydd ar gael neu a ddarparwyd fel rhan o'r cais. Cydnabyddir ei bod yn bosibl y bydd rhai awdurdodau am wneud taliadau drwy siec neu ddull arall. Felly, gall awdurdodau lleol ddewis sut y caiff y cymorth hwn ei ddarparu i bob aelwyd gymwys er mwyn sicrhau y caiff taliadau eu gwneud cyn gynted â phosibl.

Dylai pob derbynnydd gael llythyr, e-bost neu neges destun i gadarnhau ei fod yn gymwys a bod ei daliad wedi'i brosesu.

Dylai Awdurdodau wneud pob ymdrech i wneud taliadau i aelwydydd cymwys ar neu cyn 31 Mawrth 2023. Pan na fo hyn yn bosibl bydd angen i Awdurdodau Lleol wneud darpariaeth ar gyfer croniadau yn unol â chanllawiau gan Lywodraeth Cymru a'u swyddog s151.

Apeliadau

Nid oes hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu taliad. Ni fydd pobl a wrthodir yn gymwys am nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Fodd bynnag, byddai'n arfer dda amlinellu'r rheswm dros wrthod a gallant wneud cais arall os byddant yn dod yn gymwys oherwydd newid mewn amgylchiadau.